Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tremeirchion
# Tremeirchion
# Llanelwy
# Sir Ddinbych
# LL17 0UN

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Tremeirchion

Lleolir Ysgol Tremeirchion ym mhentref Tremeirchion ger Llanelwy, Sir Ddinbych. Mae'n ysgol wirfoddol reoledig yr Eglwys yng Nghymru. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 73 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 12 plentyn oed meithrin rhan-amser. Mae niferoedd yr ysgol wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae ychydig dros 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'nsylweddol is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae 66% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 26% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2011 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Tremeirchion yn gymuned hapus a gofalgar lle mae’r disgyblion a’r oedolion yn cydweithio’n effeithiol â’i gilydd.  Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da.  Mae’r gydberthynas ofalgar rhwng y disgyblion hŷn a’r rhai iau yn nodwedd arbennig o fywyd yr ysgol.  Mae’r ysgol yn chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned leol.

Mae’r weledigaeth ar gyfer ysgol weithgar, gynhwysol a gofalgar yn cael ei hyrwyddo’n effeithiol gan y pennaeth, y staff, y llywodraethwyr a’r rhieni.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu lefel effeithiol o her ar gyfer y disgyblion

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion uwch eu gallu ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod sylwadau adroddiadau monitro'r addysgu a'r dysgu yn fwy penodol er mwyn i arweinwyr ymateb iddynt yn fwy effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae medrau Cymraeg llawer o'r disgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, gydag ychydig uwchben yr hyn a ddisgwylir. Ar y cyfan, mae medrau rhif rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf, ac yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar Cymraeg yn gyflym, ac yn siarad yn hyderus mewn amrediad eang o gyd-destunau. Nodwedd gref yw'r ffordd mae'r disgyblion yn defnyddio'r iaith yn naturiol a digymell o amgylch yr ysgol gyda'u cyfoedion.

Mae medrau darllen yn gadarn ar draws yr ystod oedran a gallu. Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau darllen cynnar yn hyderus ac maent yn magu hyder wrth fwynhau gweithgareddau cyfoethog sy'n annog eu darllen, er enghraifft wrth ganolbwyntio ar stori'r tri mochyn bach. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac yn arddangos medrau ffonig cadarn wrth ddehongli geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddarllenwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant fynegi barn am strwythur a ffurf gyda hyder cynyddol, a chywain gwybodaeth i gyfoethogi eu gwaith o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. O'r cychwyn cyntaf, maent yn mwynhau gweithgareddau creadigol sy'n darparu cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu eu hysgrifennu mewn amrediad o gyd-destunau. Maent yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus ac yn mwynhau gweithgareddau hwyliog ac ymestynnol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at geidwad sw Bae Colwyn yn holi os oedd wedi colli eliffant.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu amrediad effeithiol o waith ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf yn strwythuro eu gwaith yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan atalnodi a pharagraffu gyda chywirdeb cynyddol yn unol ag oedran a gallu. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn creu darnau dychmygus ac yn gwneud defnydd o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at Gyngor dinas Lerpwl yn protestio am foddi Cwm Tryweryn. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy galluog yn ysgrifennu mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm i'r un safon. Mae medrau trawsieithu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar ffeithiau rhif, a gallant ddefnyddio'r medrau hyn yn hyderus wrth ddatrys gweithgareddau a phroblemau. Mae'r rhan fwyaf yn ymdrin â gwaith mesur yn hyderus gan ddefnyddio unedau ansafonol a safonol, er enghraifft wrth ddefnyddio clorian i fesur màs gwrthrychau. Mae'r rhan fwyaf yn medru creu siart tali yn hyderus, a defnyddio'r data i greu graffiau syml a chywir am eu hoff agweddau o oes y Celtiaid.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Ar frig yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar waith rhif, gan symleiddio ffracsiynau a defnyddio canrannau'n hyderus. Mae ganddynt afael gadarn ar waith dehongli data a dealltwriaeth dda o siâp a gofod, er enghraifft wrth ddod o hyd i arwynebedd a pherimedr siapau safonol ac ansafonol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddo i gymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws agweddau o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth a dadansoddi canlyniadau arbrawf am guriad y galon fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Gallant ddefnyddio amrediad o galedwedd a meddalwedd yn hyderus, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn defnyddio offer rheoli i atgyfnerthu ymwybyddiaeth o gyfeiriadau'r cwmpawd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymchwilio i wahanol agweddau yn hyderus, ac yn defnyddio eu canfyddiadau i gyfoethogi eu gwaith er enghraifft wrth greu cyflwyniad ar wahanol anifeiliaid yr Arctig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i gofnodi eu sylwadau er mwyn gwerthuso eu gweithgareddau ymarferol, maes o law.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu lles disgyblion yn ganolog i weledigaeth yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn cymryd gofal o'r rhai iau yn naturiol ac aeddfed. Mae bron pob disgybl yn gwrtais a meddylgar, maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae hon yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Maent yn deall effaith hyn ar eu corff a'u lles wrth geisio byw'n iach. Caiff hyn ei atgyfnerthu trwy weithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Mae bron bob disgybl yn defnyddio'r ardal allanol a thiroedd yr ysgol i'w llawn botensial yn ystod eu gweithgareddau ac amser egwyl. Mae aelodau'r pwyllgor eco yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ailgylchu yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu rhestr cyfrifoldebau a rhaglen ar gyfer cwblhau'r dyletswyddau. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cywain barn eu cyfoedion yn llwyddiannus, er enghraifft wrth flaenoriaethu cyllid er mwyn prynu dodrefn i gadw eu cotiau a'u bagiau'n daclus. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o rolau arwain, a phwysigrwydd democratiaeth.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd cyfoethog sydd iddynt leisio eu barn ac i chwarae rhan bwysig yn eu cymuned, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gwasanaethau, ac wrth gyfrannu at drefniadau dathlu penblwydd yr ysgol yn 150 mlwydd oed. Caiff yr holl ddisgyblion eu cynnwys yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft wrth i'r llysgennad digidol roi arweiniad i'w cymheiriaid am yr offer TGCh diweddaraf.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni. Mae ganddynt wybodaeth gadarn ynglŷn â diogelwch ar lein.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau positif at eu gwaith. Maent yn ymateb yn frwdfrydig ac yn aeddfed i ddisgwyliadau'r athrawon ac yn deall yr hyn

sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae llawer yn medru gwneud penderfyniadau am eu gwaith ysgrifennu, er enghraifft wrth ddewis testun ar gyfer paratoi cyfarwyddiadau. Maent yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gallu ysgrifennu am bynciau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau'n dda gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn trafod ac egluro eu gwaith yn hyderus. Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig a hyderus, gan ymateb yn llwyddiannus i'r awyrgylch gofalgar a chynhaliol sydd yn rhan annatod o'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o'r disgyblion yn cymryd digon o ofal dros gyflwyniad eu gwaith.

Mae'r disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau gan ymateb yn dda i ddyletswyddau ychwanegol. Maent yn helpu gofalu am drefn a diogelwch disgyblion wrth iddynt fynd i'r eglwys ar gyfer gwasnaethau, a chadw golwg er mwyn bod gan bawb ffrindiau ac yn teimlo'n hapus yn ystod amser egwyl.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae perthynas weithio agos a chefnogol iawn i'w gweld rhwng yr holl oedolion a'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r gydberthynas hon yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda, ac maent yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra maent yn gweithio, a rhyngweithio gyda'u cymheiriaid. Mae'r staff yn trin y disgyblion yn deg a chytbwys, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus yn eu dosbarthiadau. Mae'r holl athrawon yn annog y disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg yn rheolaidd.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau holi effeithiol er mwyn annog y disgyblion i feddwl. Maent yn cadw gweithgareddau dysgu yn fachog a difyr, gan sicrhau bod y gweithgareddau yn cynnal bwrlwm a llif y gwersi. Yn nosbarth ieuengaf y cyfnod sylfaen, defnyddir amrediad o weithgareddau symbylus a heriol i annog y dysgu, sy'n magu annibyniaeth ymysg y disgyblion yn effeithiol Mae'r athrawon yn darparu profiadau ysgogol sy'n cynnal diddordeb y disgyblion yn effeithiol iawn. Ym mhen uchaf y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y gwersi'n darparu cyfleoedd diddorol ac ymestynnol i'r disgyblion ddatblygu eu gwaith. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau lle nad yw'r addysgu mor gyson, nid yw'r cynllunio bob amser yn darparu gweithgareddau addas i'r disgyblion mwy galluog gael eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r adborth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion yn werthfawr ac yn arwain camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn cytuno targedau pwrpasol gyda'r disgyblion er mwyn iddynt adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o rôl y targedau hyn yn eu datblygiad. Mae gan yr ysgol systemau mewnol effeithiol sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion adnabod eu cryfderau a'u gwendidau personol eu hunain, er enghraifft trwy ddeall y ffordd maent yn dysgu orau.

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod effeithiol a chyfoethog o weithgareddau a phrofiadau dysgu ar gyfer y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r cynllunio ar gyfer y cyfnod sylfaen, a'i feysydd dysgu, ac ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol, yn gadarn. Mae'r athrawon yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion wrth iddynt weithio, er

enghraifft trwy ddarparu cefnogaeth ac ymyrraeth i ddisgyblion penodol er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol; er enghraifft, mae darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n cael cefnogaeth benodol yn dangos cynnydd da. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau tu mewn a thu allan i'r adeilad er mwyn hyrwyddo dysgu'r disgyblion. Mae'r ardaloedd tu allan a thiroedd yr ysgol yn cael eu defnyddio'n gelfydd er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn yr awyr agored. Mae'r staff yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o ymweliadau addysgol ac o'r ardal leol er mwyn sicrhau bod profiadau'r disgyblion wedi eu seilio'n dda yn eu milltir sgwâr.

Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol ar gyfer gyfer datblygu medrau disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu eu medrau llafar, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gwasanaethau ysgol yn yr eglwys leol. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion ddarllen ystod o wahanol ddeunyddiau fel rhan o'u gwaith thematig, ac i ysgrifennu'n effeithiol mewn amrediad o ffurfiau. Mae cyfleoedd cadarn i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth greu graffiau fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn caniatáu i ychydig o ddisgyblion mwy galluog gymhwyso eu medrau ysgrifennu yn llawn ac i'r un lefel mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sydd yn hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, tegwch a chyfle cyfartal yn llwyddiannus. Mae ymweliadau cyson â'r eglwys gyfagos ar gyfer gwasanaethau a sesiynau canu yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion. Mae'r holl staff yn modelu goddefgarwch a thegwch yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn arddangos balchder yn eu hysgol sy'n cael ei amlygu wrth iddynt ganu 'Cân Ysgol Tremeirchion'.

Mae cysylltiadau cadarn â'r cylch meithrin yn lleol er mwyn hwyluso'r broses drosglywddo wrth i'r disgyblion ymsefydlu yn y dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau gwerthfawr â'r rhieni, gyda chyfarfodydd cynnydd rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth ac atgyfnerthu'r hyn all rhieni ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith. Rhennir pecynnau defnyddiol yn canolbwyntio ar y dulliau mwyaf effeithiol i hybu llythrennedd gartref. Mae llawer o rieni yn cefnogi a chydweithio â'r ysgol i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth ddatblygu agweddau o diroedd yr ysgol sy'n fan symbulus ar gyfer y disgyblion.

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol â nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ethos gofalgar a chynhwysol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am arferion bwyta ac yfed yn iach ac yn sicrhau cyfleoedd addas iddynt ymgymryd â sesiynau ymarfer corff.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd y mae staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol a phersonol disgyblion o oed cynnar. Mae staff ategol ac athrawon yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion. Mae'r ystod werthfawr o raglenni a strategaethau ymyrraeth yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o safon dda ac yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy. Maent yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd, gyda'r disgyblion a'u rhieni yn chwarae rhan lawn yn y broses adolygu. Mae'r ymyrraeth gynnar yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth angenrheidiol er mwyn iddynt lwyddo yn eu gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd. Mae athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth a chanlyniadau profion yn llwyddiannus i gynllunio a darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â nhw, sydd yn ei dro yn hyrwyddo agweddau positif y disgyblion at eu gwaith.

Mae amrediad o weithdrefnau gwerthfawr yn caniatáu i ddisgyblion fagu hyder trwy ystyried eu cryfderau personol. O ganlyniad, mae'r ychydig sydd yn wynebu heriau emosiynol neu ymddygiadol yn medru dygymod yn fwy aeddfed a hyderus â'r heriau hynny.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn gadarn. Caiff rhan fwyaf y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu creadigrwydd drwy weithgareddau cerddorol a chelfyddydol, gan gynnwys perfformio yn yr eglwys ac yn y gymuned, mewn eisteddfodau a pherfformiadau lleol.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar ddatblygu lles disgyblion a chynnal a chodi safonau. Mae arweinwyr yr ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol o 'un teulu gyda'n gilydd' lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi. Mae cydweithio llwyddiannus â'r eglwys ac â'r gymuned ehangach yn sicrhau ymrwymiad yr holl randdeiliaid yn y weledigaeth.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae gan y staff ymwybyddiaeth dda o safonau a pherfformiad yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agwedd benodol ar waith yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at gynnal safonau. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata perfformiad yr ysgol, gan ddadansoddi canlyniadau profion mewnol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at godi safonau darllen a llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol ac maent yn chwarae rôl gynyddol mewn prosesau hunanarfarnu. Trwy gydweithio effeithiol ag arweinwyr yr ysgol, sgwrsio gyda disgyblion a chraffu ar eu llyfrau gwaith, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol ac agweddau i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol iawn i wneud penderfyniadau ac wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn llwyddo i gefnogi a herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad. Mae hyn, er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau mathemateg ar draws yr ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen glir a gonest iawn. Mae gan staff ac arweinwyr wybodaeth drylwyr am eu hysgol ac mae prosesau cadarn i werthuso gwaith yr ysgol yn arwain at welliant parhaus. Ar y cyfan, mae adroddiadau monitro

ar yr addysgu a'r dysgu yn arfarnol ac yn nodi'r agweddau i'w datblygu ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon miniog i alluogi'r arweinwyr i fynd i'r afael â'r diffygion yn gynnar.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r agweddau i'w datblygu a nodir yn yr adroddiad hunanarfarnu.  Mae'n cynnwys blaenoriaethau manwl ar gyfer gwella, ynghyd â chamau ac amserlen gweithredu, cyfrifoldebau staff, a gofynion cyllidol.  Mae arweinwyr yr ysgol yn cyflwyno adolygiad pwrpasol o'r cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol ac mae staff ac aelodau o'r corff llywodraethol yn monitro'r cynnydd yn rheolaidd.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion y dalgylch ac yn ehangach i ddatblygu agweddau ar y ddarpariaeth, gyda golwg ar godi safonau.  Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi dechrau addasu ei chynlluniau gwaith i gyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru, ac i ddatblygu llysgenhadon digidol.  Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r fframwaith cynhwysedd digidol ar waith o fewn cynlluniau'r ysgol.  Mae effaith hyn i'w gweld ar gyflawniad disgyblion.

Er bod yr adeilad yn fach, mae'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau ohoni a'r tiroedd o'i hamgylch.  Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i sicrhau bod cwricwlwm eang yn cael ei gyflwyno.  Defnyddir arbenigedd staff yn llwyddiannus i gyfoethogi agweddau penodol ar y cwricwlwm, er enghraifft i ddatblygu cerddoriaeth ac addysg gorfforol.  Gwneir defnydd arbennig o'r adnoddau a'r grantiau sydd ar gael i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau.  Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos iawn â blaenoriaethau ar gyfer gwella.  Caiff holl gyllid yr ysgol ei fonitro'n ofalus gan arweinwyr er mwyn datblygu'r ddarpariaeth a gwella safonau cyflawniad disgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2018